

CYFRIFEG, BUSNES A'R GYFRAITH

Arian sy'n datod pob clo. Os ydych yn gyflym gyda rhifau neu os oes gennych ddawn entrepreneuriaidd, yna mae Cyfrifeg neu Fusnes yn ddelfrydol i chi.

Neu efallai eich bod yn teimlo'n angerddol am gynnal trefn, diogelu rhyddid a hawliau a'ch bod yn dda am dawelu anghydfodau? Mae yna yrfa i chi yn y Gyfraith! Mae'r sector hwn yn amrywiol tu hwnt mewn amgylchedd byrlymus a chystadleuol. Cymerwch olwg ar y gwahanol lwybrau gyfaoedd y gallech chi eu dilyn mewn Cyfrifeg, Busnes a'r Gyfraith:

Cyfrifeg

Mae cyfrifwyr yn hynod drefnus a gofalus gyda rhifau, yn cadw cofnod ar arian cwmnïau ac unigolion, llif arian a pherfformiad. Mae rolau yn dechrau ar lefel mynediad fel technegydd, hyd at gyfrifydd cymwys.

Y Sector Bancio /Ymgynghorydd Ariannol

Fel arfer yn gwasanaethu cwsmeriaid ond mae'r sbectrwm yn eang, yn ymdrin â rheoli arian rhyngwladol a domestig, benthyciadau, cyfnewidfa dramor a llawer mwy. Mae ymgynghorwyr ariannol yn datrys problemau ac yn meddwl yn strategol, gan helpu i fanteisio'n llawn ar arian pobl, faint bynnag sydd ganddynt. Gallwch ddechrau fel ariannwr banc ac yna datblygu mewn amryw o ffyrdd gwahanol; mae'r cyfleoedd i uwchsgilio yn ddiddiwedd.

Swyddog Yswiriant

Mae yswiriant fel rheol yn ofyniad cyfreithiol er mwyn gyrru car, cynnal morgais etc. Mae'r diwydiant yswiriant ar gyfer y rheiny sy'n hoffi darparu datrysiadau, darparu gwasanaeth cwsmer rhagorol ac

mae'n cyffwrdd agweddau ar y gyfraith a deddfwriaeth.

Ymgynghorydd Cyfreithiol/Y Gyfraith


Gall y gyfraith fod yn flinedig iawn ond mae'n werth chweil. Mae dull gweithredu pwylllog, diwyd, sylw at fanylion a rhoi buddion eich cleient wrth eich calon yn allweddol i lwyddo. Mae'r rolau yn amrywio o swyddi ysgrifenyddol i gyfreithwyr cymwys mewn arbenigedd megis eiddo neu anafiadau.

Gwerthu a Marchnata

Gyrfaoedd byrlymus, cystadleuol ar sail targedau yn dechrau gydag eisiau neu angen eich cwsmer mewn cof. Mae'r rolau hyn fel rheol yn golygu gweithio dan bwysau ond gall gwobrau fod yn uchel.

Entrepreneur

Meddwl am syniadau busnes newydd byth a beunydd? Byddwch yr Alan Sugar neu'r Richard Branson nesaf! Mae bron i 2/3 o entrepreneuriaid yn dweud nad oedd ganddynt brofiad o reoli busnes cyn neidio i'r gwyll! Mae gweithio'n galed, gwytnwch a chrafter busnes yn allweddol i entrepreneuriaeth lwyddiannus.



£31,361
£16.30/AWR

CYFARTALEDD
CYFLOGAU
NODWEDDIADOL YN
Y DIWYDIANT HWN

CYFANSWM
Y SWYDDI YN
Y DIWYDIANT
HWN
60,168 CYMRU
1,910,382 DU



MAE RHAI O'R CYFLOGAU UCHAF YN CAEL EU TALU YN Y SECTOR HWN

Beth y caf i ei astudio, ac ymhle?

	Hyd	BG	C	DC	T
Cyfrifeg - Lefel 2	1 Flwyddyn			✓	
Cyfrifeg - Lefel 3	1 Flwyddyn			✓	
Astudiaethau Galwedigaethol TG a Busnes - Lefel 1	1 Flwyddyn				✓
Astudiaethau Galwedigaethol TG a Busnes - Lefel 1	1 Flwyddyn			✓	
Astudiaethau Busnes - Lefel 2	1 Flwyddyn		✓		
Busnes (Diploma Estynedig) - Lefel 3	2 Flynedd	✓	✓	✓	✓
Busnes, Gweinyddiaeth a TG - Lefel 3	1 Flwyddyn		✓		
Busnes, TGCh, Teithio a Thwristiaeth a Gwasanaethau Cyhoeddus (Astudiaethau Galwedigaethol) - Lefel 1	1 Flwyddyn				✓

Dolenni Defnyddiol

www.financialskillspartnership.org.uk Y Cyngor Gwasanaethau Ariannol
www.icaew.com Sefydliad Cyfrifwyr Siartredig
www.gyrfacymru.com wefan Gyrfa Cymru

Ymgewiswch ar-lein nawr ar www.colegwent.ac.uk | admissions@colegwent.ac.uk | 01495 333777 (Croesawn alwadau yn Gymraeg)



Campus key: BG - Parth Dysgu Blaenau Gwent / C - Campws Crosskeys / DC - Campws Dinas Casnewydd / T - Parth Dysgu Torfaen

